

Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

Dydd Iau 18 Hydref 2018

Goblygiadau Brexit i feysydd sy'n rhan o Gylch Gwaith y Pwyllgor

Papur Tystiolaeth – y Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon

Mae'r sector diwylliannol yn gwneud cyfraniad sylweddol at economi Cymru, gan gyfrannu at dwf economaidd cynhwysol fel y'i nodir yn y **Cynllun Gweithredu Economaidd**, gan helpu i leihau anghydraddoldeb a chyfrannu at gyflawni ein nodau yn **Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**.

Mae'n amhosibl ar hyn o bryd i fesur y goblygiadau economaidd gymdeithasol ac ehangach o adael yr Undeb Ewropeaidd.

Ymysg rhai o'r canlyniadau amlwg mae:

- **Colli arian ar gyfer prosiectau mawr** – cafwyd lefel sylweddol o gymorth ariannol gan yr UE ar gyfer cyfleusterau diwylliannol a chyfleusterau treftadaeth yng Nghymru dros y 10 mlynedd diwethaf gan gynnwys mwy na **£74m ar gyfer prosiectau treftadaeth** megis y buddsoddiad eiconig a syfrdanol yng Nghastell Harlech;
- **Colli arian ar gyfer prosiectau cydweithredol** a fydd yn effeithio ar gyrff yn y sector, prifysgolion ac eraill, ac ar gyfer **datblygu sgiliau**, yn enwedig mewn diwydiannau creadigol;
- **Yr effaith ar farchnadoedd y sector** - mae artistiaid o Gymru ac eraill yn dibynnu ar y gallu i ddangos yr hyn sydd ganddynt i'w gynnig yn rhyngwladol, tra bod 45% o ddiwydiannau diwylliannol yn allforio i'r UE. Mae diwydiannau diwylliannol mawr yn nodi eu bod yn debygol o adael y DU os na fydd unrhyw gytundeb a fydd, yn ei dro, yn effeithio ar fusnesau creadigol lleol;
- **Effaith reoleiddiol** - mae'n debygol mai ym maes cofnodion digidol, eiddo deallusol a hawlfraint y gwelir yr effaith fwyaf. Nid yw'r UE yn rheoleiddio'r amgylchedd hanesyddol ac er bod rhai goblygiadau i eiddo diwylliannol nid ydym yn wynebu'r un lefel o heriau cyfreithiol na rheoleiddiol â'r amgylchedd naturiol, er enghraifft;
- **Effaith bosibl anwadalrwydd ariannol** (megis gwerth y bunt) amhosibl i fesur ond posibl rwydd o gostau uwch er enghraifft, mae costau papur i gyhoeddwr eisoes wedi cynyddu 25%.

Bu pob rhan o Lywodraeth Cymru yn glir ac yn gyson o ran ei chwe blaenoriaeth:

- Mynediad llawn a dilyffethair parhaus at y Farchnad Sengl a chyfranogiad parhaus mewn Undeb Tollau er mwyn diogelu'r 60% o allforion o Gymru sy'n mynd i'r UE a chadw a chynyddu buddsoddiad sy'n creu swyddi.
- System ymfudo newydd sy'n cysylltu ymfudo yn agosach â chyflogaeth er mwyn i ni allu recriwtio meddygon, nyrsys, peirianwyr a gweithwyr eraill sydd eu hangen arnom, tra'n diogelu cyflogeion rhag camfanteisio.
- Sicrhau na fydd Cymru yn colli ceiniog o arian oherwydd Brexit fel yr addawyd yn ystod y refferendwm.
- Cydberthynas gyfansoddiadol hollol wahanol rhwng y llywodraethau datganoledig a Llywodraeth y DU – yn seiliedig ar barch at ei gilydd. Sicrhau na fydd Whitehall yn cymryd pwerau datganoledig yn ôl.
- Cadw'r mesurau diogelu cymdeithasol ac amgylcheddol presennol, gan gynnwys hawliau gweithwyr.
- Bod cyfnod pontio yn hanfodol bwysig i osgoi 'dibyn'.

Felly, mewn perthynas â diwylliant, ein strategaeth yw:

- **ymgysylltu â sefydliadau** yn y sector er mwyn deall effaith Brexit, casglu gwybodaeth am eu profiadau a chydweithio i baratoi ar gyfer goblygiadau ymarferol gadael yr UE
- **gweithio gyda'r sector amaethyddol a phob rhan o Lywodraeth Cymru** er mwyn sicrhau y caiff diwylliant, treftadaeth a'r amgylchedd hanesyddol eu hystyried mewn trefniadau newydd
- **datblygu rhwydweithiau** a chydberthnasau **newydd** yn Ewrop a ledled y byd er mwyn hyrwyddo diwylliant yng Nghymru, gan weithio gyda'r British Council, fforwm Penaethiaid Treftadaeth Ewrop ac eraill;
- Cydgysylltu â **DCMS Llywodraeth y DU** mewn perthynas â rheoliadau ynglŷn ag eiddo diwylliannol ac offerynnau statudol newydd
- Cydweithio, o fewn Llywodraeth Cymru a gyda'n rhanddeiliaid a'n partneriaid, i **goddi proffil rhyngwladol Cymru**

Mae pob un o'r cyrff unigol yn y sector gan gynnwys Cyngor y Celfyddydau, Amgueddfa Cymru, y Llyfrgell Genedlaethol a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru hefyd wedi mynd ati i ymchwilio i ffynonellau newydd o arian a chynnal rhwydweithiau presennol a datblygu rhai newydd.

Er nad yw Twristiaeth yn rhan o gylch gwaith y pwyllgor, mae'n werth nodi bod ein **hymgyrchoedd** a'n gweithgareddau **marchnata twristiaeth mawr** hefyd yn chwarae rôl hanfodol o ran ein helpu i barhau i gynyddu amlygrwydd a gwella enw da Cymru yn rhyngwladol. Mae potensial i ddefnyddio'r allforion creadigol a diwylliannol sy'n ein diffinio ac yn ogystal â'n llwyddiannau rhyngwladol ym maes chwaraeon i ddatblygu brand Cymru mewn marchnadoedd allweddol megis yr Almaen, Sbaen ac UDA yn ogystal â marchnadoedd sy'n datblygu megis Tsieina, India a Japan mewn cyd-destun ôl-Brexit.

Wrth gwrs, nid ydym yn ystyried yr effaith ar y sector diwylliannol ar ei phen ei hun. Mae Grŵp Swyddogion y Trefniadau Pontio Ewropeaidd (**ETOG**) trawsadrannol a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru yn cefnogi Is-bwyllgor y Cabinet ar y Trefniadau Pontio Ewropeaidd. Mae is-grwpiau ETOG hefyd wedi'u sefydlu yn ôl yr angen, er enghraifft ar ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig â Brexit, fframweithiau'r DU, ystyriaethau economaidd, cyfathrebu ac arian. Rydym hefyd yn ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid a fforymau rhynglywodraethol. Mae dull cydgysylltiedig a chydweithredol hwn o weithredu wedi galluogi Llywodraeth Cymru i fod ar flaen y gad o ran ymateb i'r penderfyniad i adael y DU a'n galluogi ni i gyfrannu'n adeiladol at drafodaethau a dadleuon er mwyn dylanwadu ar safbwyntiau Llywodraeth y DU a chyflwyno cynigion cadarn ar gyfer y dyfodol yn seiliedig ar dystiolaeth gref.